“Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd. Pwy bynnag sy’n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy’n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.” **(Ioan 11:25-26)**

Dyma ddatganiad rhyfeddol gan yr Arglwydd Iesu wrth Martha. Dyma sydd yn gosod y Ffydd Gristnogol ar wahân i bob crefydd neu gredo arall, sef y grym i orchfygu angau, boed hynny yn farwolaeth gorfforol neu yn farwolaeth ysbrydol.

Cefndir

Mae’r cefndir yn weddol hysbys i ni, mae’n siŵr. Roedd cyfaill i Iesu, sef Lasarus, wedi marw. Roedd Iesu tu hwnt i’r Iorddonen. Er i Iesu gael y neges am waeledd Lasarus, arhosodd am ddeuddydd cyn mynd i Fethania. Mae’n amlwg ei fod yn gwybod bod Lasarus yn mynd i farw, a’i fod yntau yn mynd i’w atgyfodi. Erbyn iddo gyrraedd, mae ei ffrind yn gorff ers pedwar dydd tywyll a blin i’w chwiorydd.

Geiriau gwag?

Sawl gwaith mae pobl wedi honni pethau mawr, ond wedi methu â chyflawni’r honiadau disglair? Mae mor hawdd i honiadau balch droi yn gwymp difrifol. Roedd honiad Iesu wrth Martha yn anhygoel, heb sôn am ei eiriau cyn hynny wrth y disgyblion. Er bod y siarad yn rhyfeddol a gwych, **“nid mewn siarad y mae teyrnas Dduw, ond mewn gallu” (1 Cor. 4:20).** Mae’n hyfryd gwybod bod Iesu Grist yn cadarnhau ei eiriau gyda gweithredoedd nerthol a rhyfeddol. Nid geiriau gwag oedd ei ddisgrifio’i hun fel yr atgyfodiad a’r bywyd, gan ei fod wedi atgyfodi tri pherson yn ystod ei weinidogaeth, ac wedi concro’r bedd ei hunan ar y trydydd dydd o’i farwolaeth.

Mab y weddw o Nain

Cododd Iesu fachgen ifanc o farw yng nghanol ei gynhebrwng, er dychryn a rhyfeddod y dyrfa oedd yn bresennol (Luc 7:11-17).

Merch Jairus

Erbyn i Iesu gyrraedd tŷ rheolwr y Synagog, roedd pawb yn galaru eisoes am ei ferch. Wrth i Iesu ddisgrifio angau fel cwsg, chwarddodd pawb am ei ben; yr oedden nhw’n gwybod yn iawn beth oedd marwolaeth. Ond cododd Iesu hi yng nghwmni ei rhieni a dyrnaid o’i ddisgyblion (Luc 8:40-56).

Lasarus
Yn yr hanes yma, aeth Iesu 'mlaen i alw Lasarus o'i fedd. Daeth yr honiad grymus yn air i ddeffro'r marw.

Iesu ei hun
Yn goron ar y cyfan daw atgyfodiad Crist. **"Oherwydd…traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, … a'i gyfodi y trydydd dydd"** (1 Cor. 15:3-4). Mae Paul yn mynd ymlaen i ddweud bod mwy na phum cant o gredinwyr wedi gweld Crist ar ôl ei atgyfodiad.

Addewidion gwir

Wrth i Iesu ddweud mai Ef yw'r atgyfodiad a'r bywyd, mae'n amlwg nad yw angau yn cael y gair olaf. Ar sail hynny, mae'n addo bywyd ar ôl marwolaeth corfforol, a bywyd ysbrydol o berthynas â Duw na chollir byth.

***Er iddo farw*.** Yn y cymal hwn mae Iesu'n darlunio'r credadun wrth iddo farw'n gorfforol. Er ein bod yn meddwl am Lasarus yn y cyswllt hwn, mae hyn yn mynd i ddigwydd i bawb, heblaw y genhedlaeth a fydd byw pan ddaw Crist yn ôl i'r ddaear. Ond er i ni orfod wynebu a dioddef marwolaeth, cawn fyw eto, gyda bywyd tragwyddol yn y gogoniant, oherwydd Iesu yw'r atgyfodiad.

***Ni bydd marw byth*.** Mae'r ail gymal yn darlunio'r credadun wrth iddo fyw ar y ddaear, cyn marw. Mae hwn yn byw mewn termau ysbrydol am ei fod yn credu yng Nghrist, ac ni fydd byth yn colli'r berthynas fywiol â Duw trwy Iesu Grist, ac ni all brofi marwolaeth ysbrydol.

Bywyd anorchfygol

Mae'r wyrth yma, felly, yn arwydd fod bywyd anorchfygol yng Nghrist, ac y caiff y credadun y bywyd hwnnw hefyd. Yr allwedd yn y ddau gymal yw 'credu ynof fi'. Mae'r person sydd yn gwrthod Crist fel Meseia, yn gwrthod ymddiried ynddo am faddeuant a bywyd tragwyddol, yn farw i Dduw yn ysbrydol ac yn wynebu marwolaeth dragwyddol hefyd. Heb Grist, does dim gobaith o fywyd.

Grym ac nid geiriau

Wrth i mi fyfyrio ar y darn yma eto, rwy'n sylweddoli mai holl bwrpas y wyrth oedd dangos grym bywiol Crist. Dyna yw pwrpas yr Efengyl, sef ein cyfodi gyda Christ, ein gwneud yn fyw gyda Christ, i fywyd tragwyddol. Yr hyn sydd yn dangos effeithiolrwydd yr Efengyl yn fwy na dim, yw bywyd newydd credinwyr, y newid o fod yn farw i Dduw, i fod yn greadigaeth newydd sydd yn dod yn debycach i Grist bob dydd.

O am weld mwy o'r grym bywiol hwn yn cyd-fynd â'r Efengyl yn ein dyddiau ni eto!